

**PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO
MEETINGTITLE**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2017

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R LI Jones, Richard Owain Jones a Dylan Rees

WRTH LAW: Prif Weithredwr.
Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd,
Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AD),
Swyddog Sgriwtini (GWR),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes MBE, Carwyn Jones a
Dafydd Rhys Thomas.

Cynghorydd Ieuan Williams – Arweinydd y Cyngor

Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a
Gwella Gwasanaethau).

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr T LI Hughes MBE, Carwyn Jones a
Dafydd Rhys Thomas

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2017.

4 PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro ar fuddion sefydlu Is-Grŵp Cyllid fel is-banel o'r Pwyllgor hwn, gyda dau aelod etholedig o'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio. Bwriedir cynnal yr Is-Grŵp ar ffurf cyfarfodydd busnes. Nododd ei bod yn fwriad datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i graffu ar drafodaethau cyllidol mewn mwy o fanylder yng nghyfarfodydd y ddau Bwyllgor Sgrwtini. Sgôp ac ystod arfaethedig y Panel fydd craffu ar y pynciau a ganlyn:-

- Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf
- Cyllideb y flwyddyn i ddod
- Cynllun Cyllidol Tymor Canol
- Rheoli Dyledion
- Polisi Rhyddhad Treth ar Fusnesau
- Cynllun Busnes y CRT
- Balansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth yn yr adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn -

- Gofynnwyd a fyddai rôl yr Is-Grŵp Cyllid yn dyblygu neu'n ymyrryd â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu? Dywedodd y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro mai rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw monitro risgiau a rheolaeth ariannol y Cyngor a thrwy hynny roi sicrwydd i'r Cyngor;
- Gofynnwyd cwestiynau am yr hyfforddiant fydd yn cael ei roi i Aelodau'r Is-Grŵp Cyllid. Dywedodd y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro y disgwylir y bydd Aelodau Etholedig ar yr Is-Grŵp yn cael eu datblygu yn hytrach na darparu sesiwn hyfforddiant ar eu cyfer. Nododd y bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'i dîm yn rhoi arweiniad i Aelodau Etholedig ar brosesau/themâu cyllidebol penodol o fewn y Cyngor. Rhagwelir y bydd Aelodau'n gallu craffu ar a chwestiynu'r broses gyllidebol yn drylwyr yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgrwtini wedi hynny.

PENDERFYNWYD :-

- **nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer materion cyllidol;**
- **awdurdodi'r Rheolwr Sgrwtini Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i wneud trefniadau i sefydlu Panel Sgrwtini Cyllid.**

5 PANEL SGRIWTINI PLANT

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro ar fuddion sefydlu Panel Sgrwtini Plant mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan AGGCC yn dilyn yr arolygiad diweddar o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn. Mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar bwysigrwydd parhad cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y

gwasanaethau plant i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cynyddu ac yn cael ei gynnal. Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro at y panel traws bleidiol o Aelodau presennol sydd wedi bod yn edrych ar ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a goruchwylio Cynllun Gwella cyntaf y Gwasanaethau Plant. Dywedodd bod yr adroddiad yn ceisio adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn barod gan y panel traws bleidiol, drwy ddwyn y Pwyllgor Gwaith ac Uwch Reolwyr i gyfrif drwy sgriwtini er mwyn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ac AGGCC bod y broses wella yn un cadarn ac yn gynaliadwy.

Adroddodd y Swyddog ar sgôp arfaethedig y Panel a'i nod ac amcanion, sy'n cael eu crynhoir ym mharagraff 5 yr adroddiad. Wrth ystyried aelodaeth y Panel, cyfeiriwyd yn benodol at bwysigrwydd ceisio sicrhau, fel egwyddor allweddol, bod elfen o barhad o ran aelodaeth.

Croesawodd yr Aelodau y syniad o sefydlu Panel Sgriwtini Plant a nodwyd y dylid ystyried cynnwys Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf fel aelod o'r Panel.

PENDERFYNWYD :-

- **nodi'r cynnydd wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer y Gwasanaethau Plant;**
- **derbyn sgôp ac ystod gwaith y Panel Plant newydd, gyda sicrhau elfen o barhad yn yr aelodaeth yn egwyddor allweddol wrth ystyried aelodaeth y Panel;**
- **nodi mai'r cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r Panel Plant yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol, gan y Rheolwr Sgriwtini, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes).**

6 PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Swyddog Sgriwtini bod y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi ei sefydlu ym mis Tachwedd 2012 a'i bod erbyn hyn yn briodol i ddiweddarau Cylch Gorchwyl y Panel i'w gyflwyno i aelodau newydd y Panel yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a nodwyd yn yr adroddiad.

7 ADOLYGU SGRIWTINI PARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Cyflwynodd y Swyddog Sgriwtini adroddiad cefndir manwl mewn perthynas â phartneriaethau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd â sefydliadau eraill. Nododd bod Uned Archwilio Fewnol y Cyngor wedi cwblhau adroddiad ar drefniadau llywodraethu gwaith partneriaeth ym mis Rhagfyr 2015 a fu'n sbardun i symud ymlaen gyda rhai meysydd datblygu allweddol. Argymhellwyd bod angen creu

dogfen bolisi ar gyfer partneriaethau ac ar 14 Mawrth 2015 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddogfen Polisi Partneriaethau Corfforaethol fel sylfaen ar gyfer gwaith partneriaeth a hefyd fel fframwaith i arwain trefniadau monitro partneriaethau.

Nododd bod gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio rôl bwysig o ran sicrhau lefel briodol o ymgysylltu gyda sefydliadau eraill sy'n creu unrhyw bartneriaeth. Wrth gyflawni'r rôl mae nifer o feysydd posib y dylid eu hystyried, yn cynnwys y materion canlynol:

- Craffu ar drefniadau llywodraethu;
- Craffu ar gyfraniad y Cyngor;
- Arfarnu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yn ei gyfanrwydd
- Sicrhau ymgysylltiad cyhoeddus a phartneriaethau a strategaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Mae'n briodol bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol ond hefyd yn monitro unrhyw bartneriaethau gwasanaeth gweithredol allweddol, fel y cynigiwyd gan naill ai yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth neu'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel rhan o drefniadau gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ei bod yn bwysig fod Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor perthnasol ynglŷn â gwaith y sefydliadau hyn. Nododd bod angen ffurfioli proses yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

PENDERFYNWYD nodi'r gwaith a wnaethpwyd gan y Pwyllgor o ran craffu ar effeithiolrwydd partneriaethau dros y 12 mis diweddfaf a chytuno i adeiladu ar y trefniadau craffu presennol yn ystod blwyddyn newydd y Cyngor.

8 RHAGLEN WAITH 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar y Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer 2017/18.

PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith Ddrafft ar gyfer 2017/18.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 o'r gloch

**CYNGHORYDD JIM EVANS
CADEIRYDD**